

**Uwchraddio'r Grid**

Pentir i Drawsfynydd

national**grid**

# Cylchlythyr cymunedol

Mai 2025

# Galluogi Cymru i gael dyfodol o ynni glân

## Mae angen i National Grid atgyfnerthu ac adnewyddu rhannau o'r rhwydwaith trydan foltedd uchel yng ngogledd Cymru.

**Mae dulliau cynhyrchu trydan yn y Deyrnas Unedig yn newid yn gyflym i system ynni lanach, fwy fforddiadwy a chadarnach i'r dyfodol.**

Rhagwelir y bydd y galw am drydan yn dyblu, o leiaf, erbyn 2050 a ninnau'n defnyddio mwy o ynni glân i wresogi ein cartrefi, gyrru cerbydau trydan a phweru ein diwydiant.

Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn diwallu swm sy'n cyfateb i 70 y cant o'r galw am drydan yng Nghymru erbyn 2030. Yn ogystal, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sicrhau allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050, a'i huchelgais yw cysylltu 50 GW o ynni gwynt a gynhyrchir ar y môr erbyn 2030.

Adeiladwyd rhan fawr o'r system drawsyrru bresennol yn yr 1960au a'i chynllunio i gysylltu trydan wedi'i gynhyrchu'n bennaf mewn gorsafoedd pŵer glo â chartrefi yng Nghymru a Lloegr.

Er mwyn cysylltu ffynonellau newydd o ynni adnewyddadwy â'r rhwydwaith, mae angen i ni atgyfnerthu ac adnewyddu'r rhwydwaith trydan presennol rhwng Pentir a Thrawsfynydd. Bydd hyn yn helpu i gadw'r rhwydwaith yn gadarn trwy sicrhau y gellir cyflenwi mwy o ynni glân i gartrefi a busnesau.

Mae hwn yn brosiect mawr, ac mae'n hanfodol bod y cysylltiad wedi'i atgyfnerthu erbyn 2030.

Mae'n rhan o gynllun Uwchraddio'r Grid, sef y cynllun mwyaf ers cenedlaethau i adnewyddu'r grid trydan ac mae'n cynnwys 17 o brosiectau seilwaith mawr ledled Cymru a Lloegr. Symud i gyfeiriad trydan gwyrdd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod ynni'n fforddiadwy, a disgwylir i ynni adnewyddadwy cynhenid helpu i ostwng biliau ynni yn y tymor hir.

## Rôl National Grid

**Nid yw National Grid yn cynhyrchu trydan. Ni sy'n berchen ar y rhwydwaith foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr ac yn ei gynnal.**

Mae'n cynnwys dros **7,000** cilometr (km) o linellau uwchben

**22,000** o beilonau

dros **700** km o geblau tanddaear a

**300** o is-orsafoedd.

Rydym yn cludo llawer iawn o drydan ar foltedd uchel o'r mannau lle caiff ei gynhyrchu i ardaloedd lle mae ei angen.

Yna mae gweithredwr y rhwydwaith lleol, sef SP Energy Networks yng ngogledd Cymru, yn ei gyflenwi ar folteddau is i gartrefi a busnesau unigol.

Gan fod Ofgem yn rheoleiddio ein busnes, mae arnom rwymedigaeth gyfreithiol i gysylltu ffynonellau ynni newydd â'n rhwydwaith trawsyrru pan ofynnir i ni wneud hynny.

National Grid | Mai 2025 Pentir i Drawsfynydd

# Beth y mae angen i ni ei wneud

## Mae'r map hwn yn dangos y rhwydwaith yng ngogledd-orllewin Cymru.


Mae'r rhwydwaith presennol yn rhedeg tua'r de ar linellau uwchben o'r is-orsaf ym Mhentir, cyn mynd o dan y ddaear yn y Wern, gan basio rhwng Porthmadog a Thremadog a dod allan uwchlaw'r ddaear eto yn y Garth ger Minffordd.

Mae'r llinell yn parhau i redeg uwchben ar beilonau i Drawsfynydd, er bod rhan ohoni'n cael ei rhoi o dan y ddaear fel rhan o'n prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri (EVIP) (gweler tudalen 4).

**Mae ein gwaith adnewyddu ac atgyfnerthu'n cynnwys:**

- Gosod ceblau tanddaear ac offer newydd a newid hen rai ar safleoedd is-orsafoedd Pentir a Thrawsfynydd
- Adeiladu is-orsaf newydd i'r de o Fryncir
- Newid un ochr i'r llinell uwchben rhwng Bryncir a Thrawsfynydd
- Newid y ceblau tanddaear sy'n rhedeg o dan aber afon Glaslyn ym Mhorthmadog, rhwng y Wern a Minffordd
- Cysylltu ceblau newydd Glaslyn â'r ceblau EVIP ym Minffordd ag offer newydd, a chael gwared ag offer presennol gerllaw.

**Ni fydd angen i ni adeiladu peilonau ychwanegol fel rhan o'r prosiect hwn.**




## Is-orsaf newydd a chysylltiad wedi'i atgyfnerthu ger Bryncir

Ar hyn o bryd, rydym ni'n defnyddio un ochr i'r llinell uwchben rhwng Pentir a Thrawsfynydd, ac mae SP Energy Networks yn defnyddio'r ochr arall i gyflenwi trydan i gartrefi a busnesau lleol.

Mae angen uwchraddio'r rhwydwaith fel y gall gludo'r trydan ychwanegol a gaiff ei gynhyrchu, yn cynnwys trydan o ffynonellau adnewyddadwy newydd yn y gogledd.

Fel rhan o hyn, byddwn yn newid ac yn uwchraddio un ochr i'r llinell uwchben rhwng Bryncir a Thrawsfynydd.

Bydd angen adeiladu is-orsaf newydd hefyd i'r de o Fryncir i drosi'r trydan i foltedd is, gyda chysylltiad byr â rhwydwaith lleol SP Energy Networks.

Mae gennym ganiatâd cynllunio eisoes gan Gyngor Gwynedd, ers 2017, ar gyfer is-orsaf newydd i'r de o Fryncir. Fodd bynnag, rydym yn ailymgeisio fel rhan o'r prosiect hwn gan fod angen i ni ddiwygio ychydig ar y dyluniad.

Bydd ein gwaith ar yr is-orsaf newydd yn cynnwys tynnu un o'r peilonau presennol i lawr a rhoi un arall gerllaw yn ei le.

## Newid ac uwchraddio y ceblau tanddaear presennol

**Mae'r ceblau tanddaear presennol yn rhedeg o'r Wern i'r Garth rhwng Porthmadog a Thremadog, ac o dan aber afon Glaslyn. Cawsant eu gosod tua diwedd yr 1970au ac maent yn cael eu defnyddio byth ers hynny.**

Erbyn hyn, maent yn agosáu at ddiwedd eu hoes weithredol ac mae angen eu newid er mwyn sicrhau bod y cyflenwadau trydan i'r ardal leol a'r tu hwnt yn dal yn gadarn. Oherwydd y cynnydd yn yr ynni a gynhyrchir yng ngogledd Cymru mae angen i ni newid y ceblau presennol a gosod rhai ychwanegol fel bod y rhan hon o'r rhwydwaith yn gallu cludo mwy o drydan. Gan na allwn ddatgysylltu'r ceblau presennol tra byddwn yn gosod y rhai newydd, mae angen i ni ganfod llwybrau gwahanol ar gyfer y ceblau newydd.

Fel sy'n wir am y cysylltiad presennol, bydd angen i'r ceblau newydd fynd o dan ran o aber afon Glaslyn a Gwarchodfa Natur Traeth Glaslyn.

Gwyddom fod hon yn ardal heriol ac amgylcheddol-sensitif sy'n cael ei gorlifo'n rheolaidd, ac rydym yn darparu ar gyfer y materion sensitif hyn wrth ddylunio'r prosiect.

Yn ogystal, bydd angen i'r ceblau groesi'r cae i'r gorllewin o gylchfan yr A487 sy'n cysylltu Stryd Fawr Porthmadog, pen uchaf cae chwarae Ysgol Eifionydd, dwy reilffordd dreftadaeth Porthmadog, a'r brif reilffordd.

Rydym ni a'r sefydliadau perthnasol eisoes wedi bod yn trafod y cynlluniau hyn sy'n gymhleth o safbwynt technegol, fel y gallwn wneud y gwaith yn ddiogel ac yn sensitif. Byddwn hefyd yn cydweithio'n agos â chymunedau a busnesau lleol er mwyn creu cyn lleied o anhwylustod ag y gallwn.

Mewn rhai o'r mannau hyn, byddwn yn defnyddio dull diogel a phrofedig o'r enw Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD). Mae hyn yn golygu drilio twll turio o dan rwystr, gosod dwythell ynddo a thynnu'r cebl newydd drwodd. Mae hon yn dechneg fanwl yr ydym wedi'i defnyddio'n llwyddiannus ar lawer o brosiectau eraill ledled y DU.





# Deall yr ardal

**Wrth i ni ddatblygu ein prosiect, rydym wedi bod yn cydweithio ag ystod eang o randdeiliaid ac arbenigwyr i sicrhau ein bod yn lleihau unrhyw effeithiau.**

Rydym wedi cynnal archwiliadau ac arolygon helaeth ar y tir, yn cynnwys cydweithio ag arbenigwyr amgylcheddol er mwyn sicrhau ein bod yn deall ardal y prosiect a'i nodweddion.

Rydym yn cydweithio hefyd â ffermwyr, perchnogion tir a sefydliadau eraill y mae angen i ni groesi eu tir, ei gaffael neu fynd arno. Rydym yn egluro ein prosiect iddynt ac yn cadarnhau ym mha ardaloedd y credwn y bydd angen i ni weithio.

Byddwn yn parhau i ymwneud â rhanddeiliaid arbenigol yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, cynghorau tref a chymuned yn yr ardal, Parc Cenedlaethol Eryri a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ymhlith eraill.

# Cysylltu â cheblau tanddaear newydd Eryri

**Mae rhan o’r llinell uwchben ym Mharc Cenedlaethol Eryri, ar draws aber afon Dwyryd a rhwng Minffordd a Llandecwyn, yn cael ei rhoi o dan y ddaear mewn twnnel ar hyn o bryd.**

Mae'r gwaith yn rhan o'n prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri (EVIP), sydd ar wahân, ac sydd eisoes ar waith.

Bydd angen i ni gysylltu ein ceblau newydd ni â cheblau tanddaear newydd Eryri. Er mwyn gwneud hyn yn ddiogel, bydd angen i ni osod cyfarpar o'r enw Compownd Pennau Selio Ceblau i'r gogledd o adeilad newydd pen y twnnel ym Minffordd. Mae hyn yn golygu hefyd y gallwn gael gwared â'r Compownd Pennau Selio Ceblau presennol (isod) gerllaw.

Cewch ddysgu mwy am brosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri ar-lein yn: nationalgrid.com/eryrivip




Peiriant cloddio twneli y prosiect EVIP



Y Compownd Pennau Selio Ceblau presennol

# Cydweithio â chymunedau lleol

**Credwn ei bod yn bwysig iawn i ni rannu gwybodaeth am ein prosiect â phobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.**

Mae'r holl ffyrdd y gallwch gael gwybod rhagor a chysylltu â ni i'w gweld ar dudalen 6. Yn ogystal, byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i bobl trwy gynnal digwyddiadau gwybodaeth. Cynhelir y digwyddiad cyntaf mewn cyfres o sesiynau wyneb-yn-wyneb a gweminarau ar-lein yn nes ymlaen yn y mis.

Er bod hwn yn brosiect mawr, byddwn yn cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn creu cyn lleied o drafferth ag y gallwn os oes modd.



Stryd Fawr Porthmadog

## Y mathau o ganiatâd angenrheidiol



Bydd angen caniatâd cynllunio arnom ar gyfer gwahanol elfennau ein prosiect, gan Gyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Bydd angen cydsyniad ar gyfer y gwaith hefyd gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ).

Cyn i ni gyflwyno ein ceisiadau, byddwn yn cynnal Ymgynghoriad statudol Cyn Ymgeisio yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ymgynghori’n ffurfiol â pherchnogion y tiroedd dan sylw a thiroedd cyffiniol, cynghorwyr a chynghorau cymuned lleol, ynghyd ag ymgyngoreion technegol.

Bydd sylwadau a ddaw gan randdeiliaid yn cael eu hystyried yn ofalus wrth i ni gwblhau ein ceisiadau am ganiatâd cynllunio a chydsyniadau cyn eu cyflwyno yn nes ymlaen eleni.

Byddwn yn codi hysbysiadau yn yr ardal hefyd ac yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bawb.

# Llinell amser y prosiect

**Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i'r gwaith adeiladu ddechrau yn gynnar yn 2026, os ceir caniatâd cynllunio, trwyddedau a chytundebau eraill.**



# Rhagor o wybodaeth

**Er mwyn cael y newyddion diweddaraf am ein gwaith, ewch i wefan benodol y prosiect (gweler isod). Neu gallwch ein ffonio neu anfon neges ebost atom.**


Rydym yn trefnu'r cyntaf mewn cyfres reolaidd o ddigwyddiadau gwybodaeth. Cewch ddod draw i ddysgu mwy am y prosiect, siarad ag aelodau o'r tîm am ein gwaith a thrafod unrhyw ymholiadau.

Bydd gennym gynlluniau technegol drafft i ddangos sut mae'r gwaith yn dod ymlaen a gall y tîm eu hesbonio wrthych.

Rhag ofn na allwch ddod i ddigwyddiad wyneb yn wyneb, byddwn yn cynnal digwyddiad ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd.





## Digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd



| Dyddiad ac amser | Lleoliad |
|---|---|
| Dydd Gwener 9 Mai 2025 4–7pm | Neuadd Bentref Garndolbenmaen, Garndolbenmaen, Gwynedd LL51 9SQ |
| Dydd Sadwrn 10 Mai 2025 10am–1pm ● | Byw'n Iach Glaslyn, Stryd y Llan, Porthmadog, Gwynedd LL49 9HW |
| Dydd Mawrth 13 Mai 2025 4–7pm | Ystafell Ddigwyddiadau a Chanolfan Gynadledda Clwb Pêl-droed Porthmadog, y Traeth, Porthmadog, LL49 9PP |
| Dydd Iau 15 Mai 2025 4–7pm | Neuadd Goffa Tremadog, Sgwâr y Farchnad, Tremadog, Gwynedd LL49 9RA |
| Dydd Mawrth 20 Mai 2025 11am–2pm ● | Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth, Llwyn Hudol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6AW |

● **Bydd y tîm EVIP yn bresennol yn y digwyddiadau a nodir â'r symbol hwn**

## Dewch i'n gweminar



| Dyddiad ac amser | |
|---|---|
| Dydd Mercher 28 Mai 2025 6–7pm | Gweminar – Cofrestrwch ar wefan y prosiect |

## Cysylltu â ni

Ffoniwch ni ar: **0800 915 2485**
Anfonwch neges ebost i: **Pentir-Trawsfynydd@nationalgrid.com**

Sganiwch y cod QR yma i fynd i'n gwefan neu ewch i:
**nationalgrid.com/electricity-transmission/network-and-infrastructure/pentir-thrawsfynydd**